Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Tal y Bont & Llandygai

Ysgol Llandygai
Llandygai
Bangor
LL57 4HU

Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Tal y Bont & Llandygai

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Talybont & Llandygai |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Julia Hammer |
| Person â gofal | Bethany Chadwick-Roberts |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 5 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Iau 11.00-3.00. Amser cynnal addysg - Dydd Llun i Ddydd Iau 12.30-3.00 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mawrth 2019. Cofrestriad newydd ers hyn. Arolygiad 1af y lleoliad. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 20/06/2017 |

| | |
|---|---|
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/01/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Parhau i ddatblygu rôl y pwyllgor rheoli i gynnig cefnogaeth bwrpasol i'r ymarferwyr

A2 Sicrhau bod trefniadau goruchwylio yn cael eu gweithredu'n llawn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan blant lais cryf yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser a beth maent eisiau gwneud. Er enghraifft, mae rhai o'r plant yn dewis peidio â gwisgo siwt ac esgidiau glaw ar gyfer chwarae tu allan. Ar gyfer rhannau helaeth o bob sesiwn, gall y plant ddewis gyda beth y maent eisiau chwarae. Maent yn defnyddio'r amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau diddorol sydd ar gael i lywio eu cyfleoedd chwarae a datblygu eu syniadau. Mae bron pob plentyn yn cyfathrebu'n hyderus, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn dibynnu ar ddulliau llafar yn unig, gan eu bod yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando arnynt.

Mae gweithdrefnau setlo cadarn a hyblyg yn helpu'r plant i deimlo'n ddiogel ac i ymlacio. Mae'r plant yn cyrraedd yn hapus ac yn mynd ati i chwarae. Os bydd plentyn ychydig yn dawel neu'n ofidus pan fyddant yn cyrraedd, cânt eu cefnogi'n effeithiol gan ymarferwyr. O ganlyniad, mae'r plant yn teimlo'n gartrefol yn y lleoliad. Maent yn meithrin cydberthnasau cynnes ac agos gydag ymarferwyr ac ymwelwyr ac yn rhannu eu dymuniadau.

Ar y cyfan, mae'r plant yn ymddwyn yn dda iawn ac fel sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygiad. Mae bron pob plentyn yn cyd-chwarae neu'n chwarae ochr yn ochr â'i gilydd. Maent yn gyfarwydd â threfniadau'r dydd. Maent yn dysgu i ddilyn rheolau ac i

barchu pobl eraill ac eiddo, ac yn ymateb pan maent yn cael eu hatgoffa am reolau'r lleoliad, fel '*dwylo caredig'*. Mae'r plant hŷn yn canmol plant iau pan fyddant yn cydchwarae'n garedig. Er enghraifft, pan mae plentyn iau yn cyflawni tasg, mae ei ffrind yn dathlu drwy ddweud '*da iawn ti!'*.

Mae bron pob plentyn yn ymddiddori'n frwd yn eu chwarae. Maent yn dewis yr hyn sy'n apelio atynt o'r amrywiaeth eang o weithgareddau diddorol a chyffrous sydd ar gael. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i ganolbwyntio a dyfalbarhau, ac mae bron pob un ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Er enghraifft, maent yn gweithio mewn grwpiau bach i lenwi pyllau dŵr gyda thywod a mwd, a'u symud o un ardal i'r llall. Mae'r plant yn dangos medrau dychmygol da ac yn chwarae bod yn blismyn gan arestio pobl ddrwg. Mae'r plant yn dangos brwdfrydedd wrth ymuno yn y cyfnodau hyn.

Mae'r plant yn datblygu ac yn dysgu'n dda drwy'r cyfleoedd eang a ddarperir iddynt. Trwy symud rhwng gweithgareddau a dilyn eu diddordebau eu hunain, maent yn meithrin hyder wrth wneud dewisiadau ac yn gofyn am help pan fydd ei angen arnynt. Maent yn meithrin annibyniaeth ac yn cyflawni tasgau ymarferol drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn gwisgo a thynnu eu cotiau ac esgidiau glaw ac yn rheoli eu hanghenion personol fel golchi eu dwylo'n annibynnol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae arweinwyr wedi datblygu amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn helpu'r ymarferwyr i gadw'r plant yn ddiogel. Cânt eu hadolygu gan arweinwyr bob blwyddyn. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau trwyadl y lleoliad mewn perthynas â hylendid ac iechyd a diogelwch. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol a manwl ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gyda'r plant ac yn darparu byrbrydau iach a llaeth neu ddŵr i'w yfed. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn galluogi'r plant i dreulio gymaint o amser ag sy'n bosibl yn yr awyr agored sy'n sicrhau eu bod yn cael digon o awyr iach ac ymarfer corff. Mae ymarferwyr yn cadw cofrestrau presenoldeb cywir a llyfr ymwelwyr ac yn cynnal ymarferion tân, sydd oll yn cyfrannu at sicrhau

darpariaeth ddiogel i'r plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes, hamddenol a chyfeillgar, gan greu awyrgylch cadarnhaol, hapus a bywiog. Mae ymarferwyr yn bwyllog ac yn barchus wrth siarad â'r plant ac â'i gilydd, gan gynnig esiampl dda i'r plant. Er enghraifft, maent yn canmol caredigrwydd plentyn am gynnig ei feic i blentyn arall. Mae polisi rheoli ymddygiad addas yn annog yr ymarferwyr i ddefnyddio technegau cadarnhaol fel esbonio ac arddangos er mwyn ymdrin â mân ddigwyddiadau. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad eu hunain mewn awyrgylch sy'n meithrin a hyrwyddo eu hunan-barch.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion pob plentyn. Mae systemau da iawn ar waith i gefnogi'r plant a'u teuluoedd ac mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda. Maent yn deall y prosesau i'w dilyn er mwyn cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad.

Mae ymarferwyr yn ymatebol iawn i anghenion y plant. Maent yn chwarae'n effeithiol â'r plant er mwyn cefnogi ac ehangu'r dysgu, er enghraifft trwy ddefnyddio amrywiaeth o iaith fathemategol, trafod syniadau a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth gyffrous o weithgareddau a phrofiadau perthnasol ym mhob un o'r meysydd dysgu a datblygu. Maent yn ystyried hoff deganau, offer a diddordebau'r plant wrth gynllunio, ac yn deall pwysigrwydd caniatáu iddynt barhau i chwarae am gyfnodau estynedig pan fydd rhywbeth o ddiddordeb arbennig iddynt.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion y plant yn effeithiol. Maent yn gosod adnoddau diddorol yn ardaloedd y ddarpariaeth sy'n ennyn diddordeb y plant yn dda. Er enghraifft, drwy osod dŵr yn yr ardal gartref, maent yn galluogi'r plant i ddatblygu eu medrau drwy dywallt dŵr i mewn i gwpanau bach coffi. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau'n  hygyrch, ac o ganlyniad, yn annog annibyniaeth y plant. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad i adnoddau go iawn yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gan ddilyn diddordebau'r plant er mwyn iddynt ymgysylltu'n effeithiol. Maent yn arsylwi ar y plant yn ystod eu gweithgareddau gan ofyn cwestiynau er mwyn eu herio i feddwl drostynt eu hunain a rhannu eu syniadau. Mae'r ymarferwyr yn nodi cyrhaeddiad a'r camau nesaf yn nhaith ddysgu unigol pob plentyn yn fuddiol. O ganlyniad, mae ganddynt afael gadarn ar sut i gefnogi plentyn i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith raenus ac yn cefnogi medrau ieithyddol y plant yn gyson. Maent yn canu yn ystod y gweithgareddau am arferion a digwyddiadau cyfarwydd, ac o ganlyniad, mae'r plant yn clywed yr iaith ar waith ac yn ymuno'n naturiol yn y canu. Maent wedi creu ardal lyfrau ddeniadol sy'n denu'r plant i ymgolli'n llwyr wrth fwynhau amrywiaeth o lyfrau. Mae ymarferwyr yn creu eu llyfrau eu hunain sydd yn dangos lluniau o ymweliadau a'r gweithgareddau mae'r plant wedi eu mwynhau,  gan ddatblygu cariad y plant tuag at lyfrau. Maent wedi paratoi cyfleoedd amrywiol i blant ddechrau creu marciau a datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Er enghraifft, mae'r orsaf marcio yn galluogi'r plant i ddeall pwrpas ysgrifennu trwy greu mapiau a sticeri clod i'w gilydd. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau a chyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd y plant, megis gwrthrychau go iawn fel botymau i rifo wrth greu cacennau allan o does.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn dda. Maent yn arddangos lluniau o deuluoedd y plant sy'n gyfle i ddathlu hunaniaeth a diwylliant pob plentyn. Mae'r ymarferwyr yn annog ymddygiad positif yn effeithiol ac yn gwobrwyo'r plant yn gyson am fod yn ystyriol a charedig gyda'u cymheiriaid. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth o degwch,  ac yn tynnu sylw'r ymarferwyr at ymddygiad cadarnhaol ei gilydd.

## Yr amgylchedd:  Da

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant trwy ddarparu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod unrhyw beryglon yn cael eu hadnabod, eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Maent wedi llunio asesiadau risg trylwyr sy'n amlinellu peryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Maent hefyd yn gwirio'r dogfennau hyn yn gyson, ac yn cwblhau asesiadau ychwanegol ar gyfer unrhyw weithgareddau newydd. Mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau ac yn cadw cofnod o unrhyw gamau pellach sydd angen eu dilyn. Mae ymarferwyr yn delio ag unrhyw beryglon sy'n cael eu canfod yn gyflym ac  effeithiol, er enghraifft trwy lanhau dŵr oddi ar y llawr er mwyn lleihau risg  llithro.

Mae'r arweinwyr yn ymateb yn brydlon i faterion yn gysylltiedig â diogelwch y plant ac i unrhyw achos sy'n codi. Er enghraifft, maent yn monitro ac ymarfer driliau tân yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r trefniadau i'w dilyn pe bai rheswm iddynt adael yr adeilad ar frys. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal â thrydan ac mae'r gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau'n  rheolaidd yn unol â threfniadau'r  adeilad ysgol sydd ynghlwm â'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus wrth orchwylio plant yn ofalus er mwyn sicrhau eu diogelwch y tu mewn a thu allan.

Mae'r ystafell chwarae yn gyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael ymdeimlad o berthyn trwy arddangos esiamplau o'u gwaith ar y waliau, gan gynnwys ffotograffau'r plant a'u

teuluoedd. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr ystafell chwarae yn cynnig ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ysgogol a chyffrous sy’n cyfoethogi profiadau’r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, ceir ardal baentio, llyfrau darllen, ardaloedd marcio a chwarae toes, ac mae’r rhain yn ysgogi plant i ddefnyddio’u dychymyg. Mae’r ardal tu allan yn gaeedig ac yn cynnig profiadau chwarae yn y gegin fwd, twba tywod a dŵr. Yn ogystal â hyn, maent yn defnyddio ardal laswelltog ar gyfer reidio beics, chwarae peli ac archwilio mewn tybiau mwd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ystod eang o adnoddau yn lân ac o ansawdd da. Maent yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi’r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae arweinwyr yn darparu ystod effeithiol o adnoddau ‘go iawn’. Er enghraifft, mae’r plant yn chwarae gyda llestri ac offer coginio yn y tŷ bach twt ac yn esgus siarad ar y ffôn gyda’u ffrindiau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn ar gyfer y lleoliad ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu’n dda yn y datganiad o ddiben. Maent yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel wrth benodi ymarferwyr newydd ac mae ganddynt brosesau priodol ar gyfer sefydlu staff newydd. Mae’r arweinydd yn cefnogi’r ymarferwyr yn gyson ac yn sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth yn gyson. Fodd bynnag, nid yw’r arweinydd yn derbyn goruchwyliaeth gyson. Mae ganddynt amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau addas sy’n cael eu gweithredu’n briodol yn y lleoliad. Mae arweinwyr yn adnabod agweddau cryfion y gwasanaeth, tra hefyd yn ymateb i flaenoriaethau gwella yn briodol. Maent yn ystyried amrediad addas o dystiolaeth gan gynnwys barn gwahanol randdeiliaid ac yn cynllunio ar gyfer datblygu gwahanol agweddau o’r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae’r arweinydd ac ymarferwyr yn cydweithio’n dda fel tîm ac maent yn adnabod y plant yn drylwyr. Maent yn derbyn cefnogaeth fuddiol gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a mudiadau cefnogi eraill ac yn gweithredu ar eu hargymhellion. Mae hyn yn cyfrannu’n sylweddol at ddatblygiad y ddarpariaeth. Er hyn, nid yw rôl y pwyllgor wedi ei datblygu’n ddigonol er mwyn sicrhau’r gefnogaeth fwyaf effeithiol ar gyfer ymarferwyr wrth gynnal a datblygu’r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn cydweithio’n agos â gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol yr awdurdod i sicrhau eu bod yn cefnogi’r plant yn effeithiol. Maent yn agored iawn i dderbyn pob cyngor ac yn barod i addasu eu darpariaeth yn sgil mewnbwn arbenigwyr. Mae arweinwyr wedi creu perthynas gefnogol â’r rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu’n gyson â nhw ac yn eu cynnwys ym mhrofiadau dysgu’r plant yn effeithiol. Mae arweinwyr wedi creu llawlyfr buddiol sy’n crynhoi amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol am waith y ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd priodol i ymarferwyr fynychu hyfforddiant sy’n datblygu eu hymwybyddiaeth o ddatblygiad plant. Mae’r ymarferwyr yn gweithredu yn sgil yr hyfforddiant er mwyn creu profiadau dysgu sy’n datblygu medrau’r plant yn llwyddiannus.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr bartneriaeth dda â’r ysgol leol. Maent yn gwneud defnydd buddiol o dir yr Ysgol, er enghraifft wrth drefnu profiadau yn yr ardal goediog. Mae ganddynt drefniadau pontio da sy’n hwyluso trosglwyddo’r plant i’r cam nesaf yn eu dysgu. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o’r ardal leol er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o’u cynefin. Er enghraifft, maent yn ymweld â’r eglwys a’r siop leol a theithio ar y bws i bier Bangor. Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd da o gyllid drwy archebu adnoddau pwrpasol i gefnogi datblygiad y plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2025